

Eich Meddyginiaeth - Gabapentin

Gabapentin (Enw Masnachol Neurontin)

Cafodd y cyffur hwn ei ddatblygu yn wreiddiol i reoli epilepsi. Fel sy'n digwydd yn aml, cafodd defnydd pwysig arall i'r cyffur ei ddarganfod. Gwelwyd fod Gabapentin yn ddefnyddiol mewn rhai achosion o boen cronig. Yn union fel mae'n gwanhau gweithgaredd annormal yn yr ymennydd mewn epilepsi, felly mewn rhai mathau o boen, mae'n wanhau'r gweithgaredd annormal yn y nerfau poen. Mae hyn yn golygu nad yw'n gweithio fel tabledi lladd poen 'normal'. Does dim pwrpas ei gymryd dim ond pan fo'r boen yn ddrwg iawn - rhaid ei gymryd yn rheolaidd i gadw pethau'n dawel.

Pryd mae'n ddefnyddiol?

Mae'n ddefnyddiol pan mae'r boen yn dechrau yn y nerfau eu hunain, er enghraifft niwralgia sy'n cael ei achosi gan ddiabetes, pwyso neu wasgu ar y nerf neu heintiad â firws yr eryr (niwralgia ôl herpetig).

Pryd nad yw'n ddefnyddiol?

Pan fo'r boen o ganlyniad i gyflyrau eraill sydd wedyn yn anfon negeseuon poen i'r ymennydd, er enghraifft arthritis neu gefn drwg heb ddifrod i'r nerfau.

Ond weithiau, mae mwy nag un rheswm dros y boen ac efallai bydd eich meddyg eisiau gweld a yw Gabapentin yn lleihau elfen niwralgaidd eich poen.

Beth ydy'r sgîl-ffeithiau posib?

Mae gan bob cyffur sgîl-ffeithiau a dydy Gabapentin ddim yn eithriad. Mae'n bwysig felly i bwysu a mesur y sgîl-ffeithiau yn erbyn y manteision. Fe all achosi'r canlynol:

- Teimlo'n gysglyd
- Pendro ac ansadrwydd
- Cur pen
- Cyfog neu daflu i fyny

Os gewch chi unrhyw un o'r sgîl-ffeithiau hyn, fel arfer fe fydd yn lleihau dros amser a bydd effaith fanteisiol y cyffur yn cryfhau, felly mae'n bwysig iawn dal ati.

Yn anghyffredin iawn fe all achosi pancreatitis neu newidiadau i'r iau ac os felly fe fydd yn rhaid rhoi'r gorau iddo.

Er mwyn ceisio lleihau'r sgîl-ffeithiau annymunol, rydym yn cyflwyno'r cyffur yn araf fel rheol.

Efallai bydd eich meddyg yn penderfynu cynyddu'r dos yn fwy araf yn eich achos chi neu roi dos uwch na'r uchafswm a ddangosir, os ydy o'n edrych fel eich bod yn ymateb.

Cynyddu'r dos yn raddol - 300mg (1 tabled) - 1800mg (6 tabled)

Diwrnod	Brecwast mg (nifer o dabledi)	Cinio mg (nifer o dabledi)	Swper mg (nifer o dabledi)
1			300 (1)
2	300 (1)		300 (1)
3	300 (1)	300 (1)	300 (1)
4	300 (1)	300 (1)	300 (1)
5	300 (1)	300 (1)	300 (1)
6	300 (1)	300 (1)	300 (1)
7	300 (1)	300 (1)	600 (2)
8	600 (2)	300 (1)	600 (2)
9	600 (2)	600 (2)	600 (2)
10	600 (2)	600 (2)	600 (2)


Rhaglen dosio Gabapentin dos isel

Diwrnod	Brecwast	Cinio	Swper
1	100		100
2	100		100
3	100	100	100
4	100	100	100
5	100	100	100
6	100	100	200
7	100	100	200
8	200	100	200
9	200	100	200
10	200	200	200
11	200	200	200
12	200	200	200

Parhau efo 200mg deirgwaith y dydd neu'r uchafswm y gellir ei oddef tan eich adolygiad yn y Clinig Poen.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â'r:

Gwasanaeth Poen
Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru
Ysbyty Gwynedd
Bangor

 (01248) 384185 / 385362

www.gogleddorllewincymru.org

Cyhoeddwyd gan:

Uned Cysylltiadau Corfforaethol, Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru

© 2007 Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru. Cedwir pob hawl. Ni chaniateir atgynhyrchu'r cyfan, neu unrhyw ran, heb ganiatâd deilydd yr hawlfraint.



About your Medication - Gabapentin

Gabapentin (trade name Neurontin)

This drug was developed originally for the control of epilepsy. As often happens, drugs are found to have other important uses. Gabapentin was found to be useful in some chronic pain conditions. Just as in epilepsy it dampens down the abnormal activity in the brain, so in some types of pain, it dampens down the abnormal activity in the pain nerves. This means that it does not work like a 'normal' pain killer. It is no use taking it only when the pain is severe - it has to be taken regularly to keep things quiet.

When is it useful?

It is useful when the pain starts in the nerves themselves, for example neuralgias caused by diabetes, pressure on the nerve (trapped nerve) or infection with the shingles virus (post herpetic neuralgia).

When may it not be useful?

When the pain is due to other conditions which then send pain messages to the brain, for example arthritis or a bad back without nerve damage.

Sometimes however, pain has more than one cause and your doctor may want to see if Gabapentin will reduce the neuralgic element of the pain.

What are the possible side effects?

All drugs have side effects. Gabapentin is no exception. It is important therefore to balance any side effects against the benefit.

It may cause:

- Sleepiness
- Dizziness and unsteadiness
- Headache
- Nausea or vomiting

If any of these side effects do occur, they usually get less with time and as the beneficial effect of the drug increases, so it is important to persevere with it.

Very rarely it may cause pancreatitis or alterations to the liver function when it must be stopped.

To try and reduce unpleasant side effects, we usually introduce the drug slowly.

Your doctor may decide to increase the dose more slowly in your case or give you higher doses than the maximum shown, if it looks as though you are responding.

Gradually increasing doses - 300mg (1 tablet) - 1800mg (6 tablets)

Day	Breakfast mg (no of tablets)	Lunch mg (no of tablets)	Supper mg (no of tablets)
1			300 (1)
2	300 (1)		300 (1)
3	300 (1)	300 (1)	300 (1)
4	300 (1)	300 (1)	300 (1)
5	300 (1)	300 (1)	300 (1)
6	300 (1)	300 (1)	300 (1)
7	300 (1)	300 (1)	600 (2)
8	600 (2)	300 (1)	600 (2)
9	600 (2)	600 (2)	600 (2)
10	600 (2)	600 (2)	600 (2)


Low dose Gabapentin dosing schedule

Day	Breakfast	Lunch	Supper
1	100		100
2	100		100
3	100	100	100
4	100	100	100
5	100	100	100
6	100	100	200
7	100	100	200
8	200	100	200
9	200	100	200
10	200	200	200
11	200	200	200
12	200	200	200

Continue with 200mg three times a day or the maximum tolerated until your Pain Clinic review.

For further information, please contact:

The Pain Service
North West Wales NHS Trust
Ysbyty Gwynedd
Bangor

 (01248) 384185 / 385362

www.northwestwales.org

Published by:

Corporate Communications Unit, North West Wales NHS Trust